Y Pasg

Cysyniadau: **Bywyd newydd.**

Amcan: **Dangos arwyddocâd a neges y Pasg.**

Cyfarpar: **Wyau Pasg, wy iâr a llyfr nodiadau efo tudalennau gwag.**

Cyflwyniad:

● Dangos amrywiaeth o wyau Pasg lliwgar. Holi'r plant pa rai fydden nhw'n hoffi'i gael. Pam? Am eu bod yn rhai mawr, neu bod siocledi ynddyn nhw neu am fod y bocs yn lliwgar.

● Dangos dau beth arall iddyn nhw – llyfr nodiadau gwag heb linellau o gwbl ac wy iâr. Mae'n bwysig chwythu'r wy cyn dod i'r addoliad. Gellir gwneud hyn trwy wneud un twll bychan ymhob pen. Chwythu drwy'r twll ar y pen a bydd y gwynwy a'r melynwy yn dod allan yn y pen arall.

● Holi'r plant beth sy'n gyffredin rhwng y llyfr nodiadau a'r wy. Dydi'r plant ddim yn gwybod bod yr wy yn wag. Ar ôl ychydig o ymdrechion gan y plant daliwch yr wy rhwng y bys a'r bawd a gadewch iddo syrthio ar lawr. Daw yr ateb yn gliriach; mae'r llyfr nodiadau yn wag – dim gair ynddo – ac mae'r wy yn wag.

Stori:

Dowch i wrando ar un o hanesion y Pasg. Roedd Mair, un o ffrindiau Iesu, yn awyddus iawn i fynd i eneinio corff Iesu â pherlysiau. Doedd ganddi ddim hawl i wneud hynny ar y nos Wener – y noson y bu Iesu farw ar y groes. Doedd ganddi ddim hawl i wneud hynny ar y Sadwrn chwaith gan ei bod hi'n Saboth. Diwrnod arbennig oedd y Saboth i bobl yng ngwlad Iesu, i orffwyso ac addoli Duw.

Felly aeth Mair at y bedd yn gynnar iawn fore Sul, cyn i'r haul godi. Pan gyrhaeddodd yr ardd, lle roedd bedd Iesu, gwelodd fod y maen mawr oedd ar draws agoriad y bedd wedi'i rolio i ffwrdd. Roedd y bedd yn wag. Yn ei dychryn, rhedodd Mair i chwilio am ffrindiau eraill Iesu, Pedr ac Ioan.

'Mae rhywun wedi dwyn corff Iesu!' wylodd. 'Does gen i ddim syniad o gwbl lle mae ei gorff.'

Rhag ofn bod rhyw gamgymeriad wedi digwydd, rhedodd Pedr ac Ioan at y bedd. Gwelsant y llieiniau yno, wedi'u plygu, ond doedd dim golwg o Iesu. Roedd y bedd yn wag.

Rhedodd y ddau adref, gan adael Mair ar ei phen ei hun yn yr ardd. Roedd hi'n dal i wylo pan aeth yn ôl i edrych yn y bedd unwaith eto. Edrychodd i mewn yn betrusgar a gweld dau angel yn eistedd yn yr union fan lle dylai corff Iesu fod.

'Pam wyt ti'n wylo?' gofynnodd un o'r angylion.

'Mae rhywun wedi dwyn fy meistr,' ochneidiodd Mair. 'Does gen i ddim syniad yn y byd lle mae ei gorff.'

Clywodd sŵn y tu ôl iddi a throdd i edrych. Tybiai mai'r garddwr oedd yn sefyll yno.

'Am bwy wyt ti'n chwilio?' gofynnodd y dyn.

'Os gweli'n dda, dyweda wrtha i lle maen nhw wedi rhoi corff Iesu.'

Atebodd y dyn gydag un gair yn unig,

'Mair,' meddai.

Gwyddai Mair ar ei hunion pwy oedd y dyn – Iesu.

Rhedodd nerth ei thraed i ddweud wrth ei ffrindiau ei bod wedi gweld Iesu.

Trafodaeth bellach:

● Pam ydych chi'n meddwl ein bod yn bwyta wyau siocled adeg y Pasg?

● Mae wy yn symbol o fywyd newydd. Bydd cyw bach yn deor o'r wy fydd yr iâr wedi'i ddodwy.

● Beth mae'r bedd gwag yn ei ddweud wrthym ni?

Emyn: Diolch, Iesu: Canu Clod 119

Munud i feddwl:
Mae'r Pasg yn ddechrau newydd. Mae'n golygu bywyd newydd ar y ddaear. N. T. Wright

Dyfyniad o'r Beibl:
"Pam dych chi'n edrych mewn bedd am rywun sy'n fyw? Dydy Iesu ddim yma; mae yn ôl yn fyw!" Luc 24:5-6 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch am fywyd Iesu Grist. Mae o wedi'n dysgu ni sut i fyw bywyd fydd yn helpu pobl eraill. Pan fyddwn ni'n helpu pobl eraill ac yn gwneud ein gorau byddwn yn dangos sut un ydi Iesu Grist. Diolch. Amen.